# Pwyllgor Craffu Addysg a Phobl Ifanc

## Adroddiad Blynyddol

## Y Broses Graffu yn Sir Gaerfyrddin

Gonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella Cyfranogi Gonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella Cyfranogi
Gonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella Cyfranogi Gonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella Cyfranogi
Gonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella Cyfranogi Gonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella Cyfranogi
Gonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella Cyfranogi Gonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella Cyfranogi
Gonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella Cyfranogi Gonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella Cyfranogi
Gonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella Cyfranogi Gonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella Cyfranogi
Gonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella Cyfranogi Gonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella Cyfranogi
Gonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella Cyfranogi Gonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella Cyfranogi
Gonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella Cyfranogi Gonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella Cyfranogi
Gonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella Cyfranogi Gonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella Cyfranogi
Gonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella Cyfranogi Gonestrwydd Uniondeb Tryloywder Bod yn agored Monitro Gwella Cyfranogi

sirgar.llyw.cymru

Cyngor **Sir Gâr**
**Carmarthenshire**
County Council

## Cynnwys

Rhagair gan y Cadeirydd ... 3
1. Cyflwyniad ... 4
2. Trosolwg o Waith y Pwyllgor yn 2025/26 ... 4
2.1 Rôl Craffu ... 4
2.2 Y Blaengynllun Gwaith ... 5
2.3 Cyfarfodydd y Pwyllgor Craffu Addysg, Pobl Ifanc a'r Gymraeg ... 6
2.4 Monitro Perfformiad / Materion Strategol ... 6
2.4.1 Adroddiad Blynyddol Cyngor Sir Caerfyrddin 2024/25 ... 6
2.4 Cynlluniau Busnes 2026/27 ... 7
2.4.3 Adroddiadau Perfformiad sy'n berthnasol i'r Pwyllgor ... 7
2.4.4 Diweddariadau'r Grŵp Penaethiaid ... 8
2.4.5 Y wybodaeth ddiweddaraf am gyhoeddiadau Adroddiadau Estyn ... 9
2.4.6 Camau Gweithredu ac Atgyfeiriadau ... 9
2.5 Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf ... 9
2.5.1 Adroddiadau Monitro Cyllideb ... 9
2.5.2 Adroddiad Alldro'r Gyllideb Refeniw 2024/25 ... 9
2.5.3 Strategaeth Cyllideb Refeniw 2026/27 tan 2028/9 ... 10
2.6 Strategaeth y Rhaglen Moderneiddio Addysg ... 11
2.6.1 Y Rhaglen Moderneiddio Addysg: Cynnig i newid yr ystod oedran o 4-11 i 3-11 yn yr ysgolion cynradd canlynol – Cwrt Henri, Llanybydder, y Tymbl a'r Ddwylan ... 11
2.6.2 Y Rhaglen Moderneiddio Addysg: Cynnig i ad-drefnu'r ddarpariaeth feithrin yn Rhydaman ... 11
2.6.3 Y Rhaglen Moderneiddio Addysg: Cynigion ar gyfer Ysgol Llansteffan, Ysgol Meidrim, Ysgol y Fro a dogfen ymgynghori ar gyfer Ysgol Pontiets ... 12
2.6.4 Diweddariad ar y Rhaglen Moderneiddio Addysg ... 13
2.6.5 Y Rhaglen Moderneiddio Addysg: Cynnal a Chadw Adeiladau Ysgol a Dylunio Adeiladau Newydd - Heriau, Camau Gweithredu a Gwelliannau Strategol ... 13
2.6.6 Y Rhaglen Moderneiddio Addysg: Cynnig i symud Ysgol Heol Goffa i safle newydd a chynyddu nifer y lleoedd i 150 ... 14
2.7 Estyn ... 14
2.7.1 Y wybodaeth ddiweddaraf am gyhoeddiadau Adroddiadau Estyn ... 14
2.7.2 2.6.5 Gwerthuso Arolygiadau Estyn ar draws Ysgolion, Unedau Cyfeirio Disgyblion a Lleoliadau Arbenigol yn Sir Gaerfyrddin ... 15
2.7.3 Ymweliad Arolygydd Arweiniol Estyn â'r Awdurdod Lleol ... 15
2.7.4 DIWEDDARIAD AR BRESENOLDEB YSGOL YN DILYN ARGYMHELLIAD ESTYN 16
2.8 Ysgolion ... 16
2.8.1 Sicrhau Ansawdd Ysgolion ac Unedau Cyfeirio Disgyblion ... 16
2.8.2 Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Drawsnewid y Gwasanaethau Addysg ... 17
2.8.3 Darpariaeth y Gwasanaeth Cerdd yn Sir Gaerfyrddin ... 18
2.8.4 Addysg Ôl-16 ALl Sir Gaerfyrddin ... 18
2.9 Yr Iaith Gymraeg ... 19

2.9.1 Y Wybodaeth Ddiweddaraf am y Ddarpariaeth Cymraeg i Oedolion .............. 19
2.9.2 Diweddariad Cynnydd ar weithredu Strategaeth Gymraeg y Cyngor.............. 19
3 Gweithgarwch Craffu Arall........................................................................ 20
3.1 Gorchwyl a Gorffen ........................................................................... 20
3.2 Ymweliadau Safle.............................................................................. 20
3.3 Sesiynau Datblygu ................................................................................ 20
4. Effaith ........................................................................................ 22
4.1 Sut mae Craffu wedi gwneud gwahaniaeth eleni?.......................................... 22
5. Ymgysylltu â'r Cyhoedd.......................................................................... 24
6. Heriau.............................................................................................. 24
7. Gwaith yn y Dyfodol ............................................................................. 24
8. Cefnogi'r Swyddogaeth Graffu .................................................................. 25
9. Presenoldeb ....................................................................................... 26

## Rhagair gan y Cadeirydd



Fel Cadeirydd mae’n bleser cyflwyno Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Craffu Addysg a Phobl Ifanc am y flwyddyn fwrdeisiol 2025-26.

Yn gyntaf hoffwn gyfleu ein diolch i’r  Cynghorydd Emlyn Schiavone am fod yn gadeirydd hyd at 10.12.2025, a hefyd i Vera Kenny a fu’n aelod ffyddlon iawn  ers llawer blwyddyn cyn ymddeol ar 14.10.2025. A chroeso cynnes i’r Cynghorydd Russell Sparks sydd yn aelod newydd  o’r pwyllgor ers 25.2.2026.

Fe welwch, o dan y gwahanol benawdau yn yr adroddiad, fod y Pwyllgor wedi craffu ar amrywiaeth eang o faterion perthnasol, gan roi sylw arbennig i Gynllun Busnes yr Adran yn ogystal ag agweddau o flaen gynllunio yn y maes cyllido fel enghreifftiau.
Yna, ar ddiwedd pob adran fe welwch ddatganiad o’r ‘canlyniadau’. Mae hyn yn dangos yn glir gasgliadau’r pwyllgor a’r hyn y mae yn ei gymeradwyo.

Nodwedd arall o’r flwyddyn oedd y ‘gweithdai’ a gynhaliwyd, gan roi cyfle i swyddogion i gyflwyno a rhannu gwybodaeth ac i drafod ymhellach gyda’r aelodau y gwahanol drefniadaethau sy’n berthnasol i Bresenoldeb a Chyllido Ysgolion a materion eraill.

Mae craffu manwl a chyson y pwyllgor yn gymorth i’r Awdurdod i ddatblygu’r gwasanaethau a chyflawni eu polisïau i’r dyfodol fel y gwelir o dan 4.1
Carwn ddiolch i’r Cyfarwyddwr Addysg a’i swyddogion a’i staff am eu cydweithrediad parod bob amser yn yr holl gyfarfodydd, ac yn gyffredinol yn ogystal.

**Y Cynghorydd Peter Hughes-Griffiths**
**Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Addysg a Phobl Ifanc**

## 1. Cyflwyniad

Mae'r swyddogaeth Graffu yn elfen allweddol o drefniadau llywodraethu y Cyngor Sir a'i broses o wneud penderfyniadau. Er nad yw'n gorff sy'n gwneud penderfyniadau, mae Craffu yn fwyaf effeithiol pan fydd yn manteisio ar y potensial i ddylanwadu ar benderfyniadau a wneir gan y Cyngor a chyrff partner ar draws y sir.

Mae Erthygl 6.2 o Gyfansoddiad y Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl Bwyllgorau Craffu *"baratoi adroddiad blynyddol sy'n egluro gweithgareddau'r Pwyllgor dros y flwyddyn flaenorol"*.

Mae'r adroddiad yn pwysleisio'r gwaith a wnaed gan y Pwyllgor Craffu Addysg a Phobl Ifanc yn ystod blwyddyn y cyngor 2025/26. Ei nod yw rhoi cyfle i aelodau fwrw golwg ar ei gyflawniadau, nodi meysydd arferion gorau a thynnu sylw at feysydd i'w gwella er mwyn gwella'r swyddogaeth graffu ymhellach. Yn ogystal, efallai y bydd yr adroddiad hwn yn hwyluso trafodaeth ar eitemau y gellid eu nodi i'w cynnwys mewn rhaglenni gwaith yn y dyfodol.

Caiff y Pwyllgor ei gadeirio gan y Cynghorydd Peter Hughes-Griffiths ac mae'n cynnwys 14 o Aelodau Etholedig a 5 o Aelodau Cyfetholedig â Phleidlais (3 rhiant-lywodraethwr etholedig, 1 cynrychiolydd o'r Eglwys yng Nghymru ac 1 cynrychiolydd o'r Eglwys Gatholig Rufeinig). Mae Aelodau Cabinet yn mynychu cyfarfodydd fel sy'n ofynnol er mwyn annerch y Pwyllgor ar feysydd yn eu portffolios priodol.

Darperir cymorth gan yr Uned Gwasanaethau Democrataidd a Swyddogion eraill y Cyngor, pan fo angen.

## 2. Trosolwg o Waith y Pwyllgor yn 2025/26

### 2.1 Rôl Craffu

Mae pob Pwyllgor Craffu yn gyfrifol am graffu ar Bortffolios Penodol y Cabinet a'u gwasanaethau perthnasol a chael trosolwg ohonynt. Mae'r Pwyllgor Craffu Addysg a Phobl Ifanc yn gyfrifol am graffu ar bortffolio Addysg y Cabinet a'r meysydd gwasanaeth perthnasol:-

| | |
|---|---|
| Ysgolion a Gwasanaethau Addysg o 3 - 19 | Tîm Diogelu a Phresenoldeb Ysgolion |
| Gwella Ysgolion, Trefniadaeth a Pherfformiad | Cynllun Strategol a Fforwm y Gymraeg mewn Addysg |
| Seicoleg Addysg | Dysgu Oedolion yn y Gymuned gan gynnwys Cymraeg i Oedolion |

| | |
|---|---|
| Cynnal Ysgolion a Gwasanaethau Llywodraethwyr | Gwasanaeth Cymorth Ieuenctid |
| Addysg Feithrin a Safonau | Derbyn Disgyblion i Ysgolion |
| Pobl Ifanc nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant (NEET) | Gwasanaethau Ymddygiadol |
| Consortia Rhanbarthol | Presenoldeb yn yr Ysgol |
| Rhaglen Buddsoddi mewn Ysgolion Sir Gaerfyrddin | Data a systemau addysg |
| Cynhwysiant (ADY) | Gwasanaeth Cerdd |
| Estyn | Gwasanaethau Arlwyo Mewn Ysgolion |
| Ysgolion Iach | Addysg Ôl-16 a Chyllid a'r Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Ranbarthol |

** Yn ei gyfarfod ar 12 Tachwedd 2025, diwygiodd y Cyngor gylch gwaith y Pwyllgor i adlewyrchu'r portffolio Aelodau'r Cabinet wedi'i ddiweddaru.*

Yn unol â'r meysydd cyfrifoldeb, bydd y Pwyllgor Craffu Addysg a Phobl Ifanc yn ceisio:-

- Archwilio pa mor dda y mae'r Cabinet a'r Cyngor yn perfformio;
- Dwyn y Cabinet i gyfrif a cheisio hyrwyddo proses benderfynu sy’n agored ac yn dryloyw;
- Monitro perfformiad gwasanaethau a swyddogaethau’r Cyngor;
- Adolygu penderfyniadau’r Cabinet lle bo hynny’n briodol;
- Cynorthwyo’r Cabinet i ddatblygu, monitro, ac adolygu polisïau;
- Craffu ar y strategaeth cyllideb refeniw a’r rhaglenni buddsoddiadau cyfalaf arfaethedig, a hynny fel rhan allweddol o’r broses ymgynghori;
- Galluogi sefydliadau a phartneriaid allanol i gyfrannu at y gwaith o ystyried materion a all effeithio ar y modd y cyflawnir blaenoriaethau’r Cyngor a’r sir gyfan.

## 2.2 Y Blaengynllun Gwaith

Mae'r broses graffu yn chwarae rhan allweddol o ran hyrwyddo atebolrwydd ym mhroses gwneud penderfyniadau yr Awdurdod Lleol. Hefyd mae’r broses yn ddefnyddiol o ran sicrhau bod polisïau’r Cyngor yn adlewyrchu'r blaenoriaethau cyfredol, yn ogystal â hyrwyddo effeithlonrwydd ac annog cydweithio ag asiantaethau allanol.

Mae Pwyllgorau Craffu'n gweithredu dull craffu cyn gwneud penderfyniadau sy'n galluogi'r Pwyllgor Craffu Addysg a Phobl Ifanc i gymryd perchnogaeth o'i Flaengynllun Gwaith a phennu pa adroddiadau o Flaengynllun Gwaith y Cabinet y mae'n dymuno eu hystyried. Gall Pwyllgorau Craffu hefyd nodi eu pynciau eu hunain, sy'n berthnasol i'w cylch gwaith, i'w hadolygu. Yn ogystal, gall y Cabinet wahodd Pwyllgorau Craffu perthnasol i graffu ar benderfyniad oedd ar y gweill.

Defnyddiodd y Pwyllgor fframwaith Gateway y Ganolfan Llywodraethu a Chraffu i ddatblygu ei Flaengynllun Gwaith ar gyfer blwyddyn y cyngor a adolygwyd yn rheolaidd.  Roedd hyn yn darparu dull hawdd ei reoli, hyblyg a chadarn o graffu ac yn sicrhau bod y meysydd i'w hadolygu yn cael eu hystyried ar sail blaenoriaeth ac mewn modd amserol.

Yn hyn o beth, penderfynodd y Pwyllgor ddosbarthu rhai adroddiadau cyfnodol ynghylch perfformiad a monitro'r gyllideb i aelodau y tu allan i'r rhaglen cyfarfodydd ffurfiol. Roedd y broses hon yn golygu bod modd gosod unrhyw faterion perthnasol a nodwyd gan aelodau ar yr agenda ffurfiol i'w hystyried ymhellach, fel y bo'n briodol. Arweiniodd manteision y dull hwn o weithio at wella'r drafodaeth a'r cyfraniadau yn ystod cyfarfodydd y Pwyllgor Craffu. At ei gilydd, roedd agendâu'r cyfarfodydd yn gyson â'r rheiny a amlinellwyd yn y Blaengynllun Gwaith.

## 2.3 Cyfarfodydd y Pwyllgor Craffu Addysg, Pobl Ifanc a'r Gymraeg

Trefnir cyfarfodydd o bryd i'w gilydd i ystyried materion ac adroddiadau sydd wedi'u cynnwys yn y Blaengynllun Gwaith. Cynhaliodd y Pwyllgor 6 chyfarfod ffurfiol yn ystod y cyfnod adrodd a chynhaliwyd pob cyfarfod yn unol â'r darpariaethau a nodir yn Adran 47 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Er mwyn ategu'r gwaith a wnaed yn ystod cyfarfodydd ffurfiol, mae'r Pwyllgor hefyd yn cyflawni swyddogaethau craffu eraill megis Gorchwyl a Gorffen, Craffu Un Diwrnod ac ymweliadau â sefydliadau a ddaw o fewn ei gylch gwaith, ynghyd â sesiynau datblygu a gweithdai.

## 2.4 Monitro Perfformiad / Materion Strategol

Un o brif rolau'r Pwyllgor Addysg a Phobl Ifanc yw monitro perfformiad gwasanaethau a swyddogaethau o fewn ei gylch gwaith. Yn unol â hynny, mae'r Pwyllgor yn adolygu adroddiadau monitro perfformiad a gwahanol strategaethau a chynlluniau i roi asesiad cytbwys o'r perfformiad ar draws y meysydd gwasanaeth perthnasol.

### 2.4.1 Adroddiad Blynyddol Cyngor Sir Caerfyrddin 2024/25

Ym mis Hydref 2025 cafodd y Pwyllgor i'w ystyried Adroddiad Blynyddol y Cyngor 2024/25 ynghylch Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor 2022-2027 a gynhyrchwyd yn unol â'r darpariaethau perthnasol o fewn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Roedd yr adroddiad yn nodi'r cynnydd a wnaed o ran Amcanion Llesiant y Cyngor, ynghyd â hunanasesiad y Cyngor yn erbyn gofynion perfformiad y flwyddyn ariannol flaenorol. Canolbwyntiodd y Pwyllgor ar flaenoriaethau'r gwasanaeth a'r blaenoriaethau thematig o fewn ei gylch gwaith a chododd faterion yn ymwneud â'r canlynol:

- dyrannu cyllid Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) i sicrhau bod y meysydd sydd â'r anghenion mwyaf yn cael eu diwallu;
- amryw o ddulliau strategol wedi'u gweithredu i gefnogi ysgolion i wella lefelau presenoldeb;
- nifer cynyddol o ddisgyblion sy'n derbyn Addysg Ddewisol yn y Cartref yng Nghymru;
- Mae'r Awdurdod yn rhagori ar ei dargedau o ran nifer y plant a oedd yn gallu nofio, ond cydnabuwyd bod cost cludiant ysgol yn her i ysgolion.

**<u>Canlyniad:</u>**

**Yn ei gyfarfod ar 15 Rhagfyr 2025, rhoddodd y Cabinet ystyriaeth i'r holl adborth a ddaeth i law ac argymhellodd i'r Cyngor fod Adroddiad Blynyddol 2024/25 yn cael ei**

**gymeradwyo. Yna mabwysiadodd y Cyngor yr adroddiad yn ei gyfarfod ar 28 Ionawr 2026.**

### 2.4 Cynlluniau Busnes 2026/27

Ym mis Ionawr 2026 bu'r Pwyllgor yn ystyried y Cynlluniau Busnes drafft sy'n berthnasol i'r Adran Addysg a Hamdden ar gyfer 2026/27, fel a ganlyn:-

- Cynllun Gwasanaethau Addysg
- Cynllun Gwasanaethau Cynhwysiant

Roedd y cynlluniau yn pennu'r camau a'r mesurau strategol i'w gweithredu ym mhob Is-adran er mwyn i'r Cyngor wneud cynnydd mewn perthynas â'i amcanion llesiant, ei flaenoriaethau thematig a blaenoriaethau'r gwasanaeth. Rhoddodd hyn gyfle i'r Pwyllgor ystyried y blaenoriaethau a amlinellwyd ar gyfer yr Is-adran ac adolygu'r camau a'r mesurau arfaethedig o ran priodoldeb wrth gyflawni mewn perthynas â Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor a chynnal swyddogaethau allweddol y Cyngor.

Mae'r Cynlluniau yn nodi blaenoriaethau clir, camau gweithredu sy'n seiliedig ar dystiolaeth, a dull cadarn o wella ar gyfer y flwyddyn i ddod er mwyn symud ymlaen tuag at ei weledigaeth hirdymor hyd at 2032*: sicrhau bod pob dysgwr yn Sir Gaerfyrddin yn hapus, yn ddiogel, yn ffynnu, ac yn cyflawni eu potensial llawn*.

**Canlyniad:**

**Cymeradwyodd y Pwyllgor y Cynlluniau Busnes Drafft sy'n berthnasol i'r adran Gwasanaethau Addysg a Hamdden ar gyfer 2026/27.**

### 2.4.3 Adroddiadau Perfformiad sy'n berthnasol i'r Pwyllgor

Yn unol â'r protocolau a sefydlwyd gan y Pwyllgor, cafodd adroddiadau monitro perfformiad chwarterol sy'n berthnasol i gylch gwaith y Pwyllgor eu dosbarthu drwy e-bost i aelodau fel a ganlyn:-

- Mehefin 2025 - Monitro Perfformiad Chwarter 4 2024/25
- Hydref 2025 – Monitro Perfformiad Chwarter 1 2025/26
- Ionawr 2026 – Monitro Perfformiad Chwarter 2 2025/26
- Mawrth 2026 – Monitro Perfformiad Chwarter 3 2025/26

Roedd y wybodaeth yn rhoi hunanwerthusiad o berfformiad yn unol â'r fframwaith deddfwriaethol sydd wedi'i ymgorffori yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Rhoddwyd cyfle i'r Aelodau godi unrhyw bryderon neu faterion yr oedd angen eu hystyried ymhellach yng nghyfarfod ffurfiol y Pwyllgor, yn unol â Rheolau'r Weithdrefn Graffu.

**Canlyniad:-**

**Roedd yr adroddiadau yn galluogi aelodau i fonitro perfformiad mewn perthynas â'r Amcanion Llesiant sy'n berthnasol i gylch gwaith y Pwyllgor ac sy'n cyd-fynd â Strategaeth Gorfforaethol yr Awdurdod.**

### 2.4.4 Diweddariadau'r Grŵp Penaethiaid

Bu'r Pwyllgor yn ystyried diweddariad y Grŵp Penaethiaid ym mis Ionawr 2026. Rhoddwyd gwybod i'r aelodau am y materion perthnasol a ystyriwyd yn y cyfarfodydd o fewn meysydd rheoli ysgolion, polisi addysg, a mentrau awdurdodau lleol. Roedd y cyfarfodydd yn llwyfan hanfodol i arweinwyr ysgolion drafod heriau a gweithio ar y cyd i ddod o hyd i atebion ac i rannu arferion gorau.

**Canlyniad:-**

**Cynhaliwyd Sesiwn Ddatblygu ym mis Mawrth 2026 lle cyfarfu cynrychiolwyr o Gymdeithas Penaethiaid Uwchradd Sir Gaerfyrddin a Chymdeithas Penaethiaid Cynradd Sir Gaerfyrddin â'r Pwyllgor i drafod heriau a chyfleoedd o fewn ysgolion a oedd yn galluogi aelodau i adolygu a chyfrannu at waith y grwpiau. Mae rhagor o wybodaeth wedi'i nodi yn adran 3.3 o'r adroddiad hwn.**

### 2.4.5 Y wybodaeth ddiweddaraf am gyhoeddiadau Adroddiadau Estyn

Cafodd gohebiaeth yn cynnwys gwybodaeth am gyhoeddiadau adroddiadau Estyn perthnasol a diweddaraf ei dosbarthu i'r Pwyllgor drwy e-bost ym mis Mehefin 2025, Hydref 2025, Rhagfyr 2025, Ionawr 2026, Mawrth 2026 a Mai 2026 mewn perthynas â'i adroddiadau arolygu a'i adroddiadau thematig oedd yn ymwneud ag addysg a hyfforddiant.

| **<u>Canlyniad:-</u>**<br><br>**Roedd yr adroddiadau'n hysbysu'r Pwyllgor o ddatblygiadau/materion sy'n dod i'r amlwg ac yn rhoi cyfle i aelodau godi unrhyw faterion i'w hystyried ymhellach.** |
|---|

### 2.4.6 Camau Gweithredu ac Atgyfeiriadau

Yn ystod blwyddyn y cyngor gwnaed ceisiadau am eitemau ychwanegol gan aelodau'r Pwyllgor i'w cynorthwyo i gyflawni eu rôl graffu. Cyflwynwyd y wybodaeth ddiweddaraf am y Camau Gweithredu a'r Atgyfeiriadau i'r Pwyllgor yn ei gyfarfodydd a gynhaliwyd ym mis Mehefin 2025, Rhagfyr 2025 a Mai 2026 a oedd yn manylu ar y cynnydd a wnaed mewn perthynas â'r ceisiadau hyn.

## 2.5 Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf

### 2.5.1 Adroddiadau Monitro Cyllideb

Yn unol â'r protocolau a sefydlwyd gan y Pwyllgor, dosbarthwyd adroddiadau chwarterol ar y cyllidebau refeniw a chyfalaf adrannol a chorfforaethol i aelodau fel a ganlyn:-

- Hydref 2025 - mewn perthynas â'r sefyllfa gyllidebol ar 30 Mehefin 2025;
- Rhagfyr 2025 - mewn perthynas â'r sefyllfa gyllidebol ar 31 Awst 2025;
- Ionawr 2026 – mewn perthynas â'r sefyllfa gyllidebol ar 31 Hydref 2025;
- Mawrth 2026 – mewn perthynas â'r sefyllfa gyllidebol ar 31 Rhagfyr 2025

Roedd yr adroddiad mewn perthynas â'r sefyllfa gyllidebol ar 31 Chwefror 2026 wedi'i drefnu'n wreiddiol ar gyfer y Pwyllgor Craffu ym mis Mai 2026, ond oherwydd newidiadau i'r cylch cyfarfodydd democrataidd, gohiriwyd yr adroddiad ac mae wedi'i drefnu ar gyfer Mehefin 2026.

Dosbarthwyd adroddiadau monitro cyllideb ar gyfer Hydref 2025, Rhagfyr 2025 a Mawrth 2026 i'r Pwyllgor drwy e-bost i roi cyfle i'r Aelodau godi unrhyw bryderon neu faterion yr oedd angen eu hystyried ymhellach yng nghyfarfod ffurfiol y Pwyllgor, yn unol â Rheolau'r Weithdrefn Graffu. Cafodd yr adroddiad monitro cyllideb ar gyfer Ionawr 2026 ei ystyried yn rhan o'r agenda ffurfiol gan alluogi'r aelodau i fonitro gwariant ym mhob maes gwasanaeth a'r cynnydd a wnaed o ran unrhyw waith cyfalaf.

### 2.5.2 Adroddiad Alldro'r Gyllideb Refeniw 2024/25

Yn ogystal â monitro'r cyllidebau refeniw a chyfalaf cyfredol, rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i Adroddiad Alldro'r Gyllideb Refeniw 2024/25 ym mis Hydref 2025 a roddodd i'r Pwyllgor sefyllfa ariannol fel yr oedd ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Dangosodd y grynodeb o'r sefyllfa fod yr is-adran Addysg, Plant a Gwasanaethau Teulu wedi adrodd gorwariant o £1,151k ar ddiwedd y flwyddyn yn erbyn ei chyllideb gymeradwy. Nododd y Pwyllgor hefyd

fod yr is-adran wedi cyrraedd ei tharged o gyflawni £805k o arbedion Rheolaethol a'i bod wedi cyflawni £100k o arbedion Polisi yn erbyn targed o £2,589k ar ddiwedd y flwyddyn.

Dangosodd sefyllfa ariannol diwedd y flwyddyn ar gyfer ysgolion ddiffyg cyffredinol o 1,838,176. Cododd y Pwyllgor bryderon bod gwariant diffyg rhai ysgolion yn parhau i fod ar lefel gritigol ac roedd ganddo botensial i ansefydlogi cyllid ehangach yr Awdurdod. Adolygodd y Pwyllgor y gwaith parhaus a wnaed gan bennaeth ymgynghorol i ddarparu cefnogaeth, cyngor a her wedi'u teilwra i ysgolion unigol ac roedd yn falch o nodi bod canlyniadau cadarnhaol hyd yma ar gyfer ysgolion cynradd o ran staff cyflenwi, tanysgrifiadau a chostau trwyddedu. Roedd yr heriau i ysgolion uwchradd yn cynnwys cynnig y cwricwlwm, niferoedd isel o ddisgyblion a darpariaeth ddwyieithog.

Tynnodd y Pwyllgor sylw at yr heriau parhaus wrth recriwtio penaethiaid i rai ysgolion, a allai effeithio ar reoli cyllidebau ysgolion yn effeithiol, ac roedd hyn yn her arbennig i ysgolion llai. Cydnabuwyd hefyd y gallai cyflwr adeiladau ysgol hefyd effeithio'n andwyol ar gyllidebau.

**Canlyniad**

**Cynhaliwyd Sesiwn Ddatblygu ym mis Mawrth 2026 lle cyfarfu'r Ymgynghorwyr a benodwyd i gynorthwyo ysgolion cynradd ac uwchradd â'r Pwyllgor i drafod heriau a chyfleoedd o fewn ysgolion i fynd i'r afael â chyllidebau ysgolion. Mae rhagor o wybodaeth wedi'i nodi yn adran 3.3 o'r adroddiad hwn.**

**Bydd monitro cyllidebau ysgolion yn parhau i fod yn faes ffocws i'r Pwyllgor fel rhan o'i Flaengynllun Gwaith ar gyfer 2026/27.**

### 2.5.3 Strategaeth Cyllideb Refeniw 2026/27 tan 2028/9

Yn ei gyfarfod ym mis Ionawr 2026 ymgynghorwyd â'r Pwyllgor ar Strategaeth Cyllideb Refeniw 2026/27 tan 2028/29. Roedd yr adroddiad yn rhoi'r Strategaeth Cyllideb Refeniw arfaethedig ar gyfer 2026/27 i'r Pwyllgor, ynghyd â ffigurau dangosol ar gyfer blynyddoedd ariannol 2027/28 a 2028/29.

Adolygodd y Pwyllgor y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â phwysau cyllidebau dirprwyedig ysgolion, gan gynnwys gwell cefnogaeth i ysgolion cynradd a datblygu mesurau ar gyfer ysgolion uwchradd. Nodwyd gwelliant cymedrol yn y sefyllfa gyllideb gyffredinol, ond cydnabuwyd, er bod gorwariant yn lleihau, roedd ei ddileu'n llawn yn annhebygol, a oedd yn atgyfnerthu'r angen i barhau i weithredu'r Rhaglen Moderneiddio Addysg. Tynnodd y Pwyllgor sylw at yr angen am hyfforddiant priodol ar gyfer cyrff llywodraethu ysgolion yn unol â'u rolau a'u cyfrifoldebau o ran rheoli cyllideb ac atebolrwydd am berfformiad ariannol ysgolion. Pwysleisiodd y Pwyllgor hefyd yr angen am adrodd ariannol amserol yng ngoleuni'r heriau sy'n gysylltiedig ag oedi wrth dderbyn rhagolygon cyllidol.

Bu'r Pwyllgor yn ystyried materion sy'n ymwneud â Dysgu Oedolion a'r Gymuned, y cynnydd arfaethedig mewn ffioedd caffi, ac effaith ariannol Prydau Ysgol am Ddim i Bob Plentyn ar y Grant Datblygu Disgyblion. Rhoddodd swyddogion sicrwydd bod rhagor o wybodaeth ac adolygiadau parhaus yn cael eu gwneud, a bod sylwadau parhaus yn cael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru.

**Canlyniad:**

**Fel rhan o'r ymgynghoriad eang a gynhaliwyd gan yr Awdurdod ynghylch Strategaeth Cyllideb Refeniw 2026/27 i 2028/29, ystyriodd y Pwyllgor y Strategaeth a chymeradwyodd gynigion y gyllideb, fel y'u cyflwynwyd. Yna cafodd Strategaeth y Gyllideb ei mabwysiadu gan y Cyngor yn ei gyfarfod ym mis Chwefror 2026, yn amodol ar rai diwygiadau.**

## 2.6 Strategaeth y Rhaglen Moderneiddio Addysg

Cafodd Rhaglen Moderneiddio Addysg yr Awdurdod ei gymeradwyo gan y Cabinet ym mis Tachwedd 2024. Nod Strategaeth y Rhaglen Moderneiddio Addysg yw darparu system addysg sy'n adlewyrchu natur ddaearyddol y sir ac sy'n darparu amgylcheddau dysgu sy'n addas ar gyfer addysgu a dysgu yn yr 21ain ganrif. Mae gan y Pwyllgor Craffu Addysg a Phobl Ifanc rôl allweddol wrth fonitro'r broses o weithredu'r strategaeth.

### 2.6.1 Y Rhaglen Moderneiddio Addysg: Cynnig i newid yr ystod oedran o 4-11 i 3-11 yn yr ysgolion cynradd canlynol – Cwrt Henri, Llanybydder, y Tymbl a'r Ddwylan

Mae trefniadau diwygiedig yr Awdurdod ar gyfer derbyn disgyblion i ysgolion cynradd yn sgil cael gwared ar y Polisi Plant sy'n Codi'n 4 oed wedi arwain at gynnydd yn y galw am addysg anstatudol a gofal cofleidiol. Er mwyn llenwi'r bylchau mewn darpariaeth addysg gynnar mewn rhai cymunedau, bu'r Pwyllgor yn ystyried, yn ei gyfarfod ym mis Mehefin 2025, y cynigion i newid yr ystod oedran yn yr ysgolion cynradd uchod.

Adolygodd y Pwyllgor y cynigion am y broses ddethol ar gyfer yr ysgolion a oedd wedi'u cyflwyno i'w hystyried, goblygiadau staffio ac ariannol, cynlluniau i'r dyfodol a'r effaith ganlyniadol ar gymunedau lleol. Nododd yr aelodau, yn bennaf, eu cefnogaeth i'r cynigion a gyflwynwyd a oedd yn ceisio cynnal niferoedd disgyblion mewn ysgolion yn y dyfodol a sicrhau darpariaeth gyson ledled y sir.

**Canlyniad:-**

**Yn dilyn cyfnod o ymgynghori ac ystyried y sylwadau a wnaed gan y Pwyllgor Craffu Addysg a Phobl Ifanc, penderfynodd y Cabinet yn unfrydol, yn ei gyfarfod ym mis Ionawr 2026, gyhoeddi hysbysiad statudol i weithredu'r cynigion.**

### 2.6.2 Y Rhaglen Moderneiddio Addysg: Cynnig i ad-drefnu'r ddarpariaeth feithrin yn Rhydaman

Yn ei gyfarfod ym mis Mehefin 2025, bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad a oedd yn nodi cynigion i ad-drefnu'r ddarpariaeth feithrin yn ardal Rhydaman o fis Medi 2026. Roedd yr Awdurdod yn bwriadu cau Ysgol Feithrin Rhydaman yn ogystal ag ymestyn yr ystod oedran yn Ysgol Bro Banw ac Ysgol Gymraeg Rhydaman o 4-11 i 3-11 oed. Byddai'r ad-drefnu hwn yn cynnig 10 awr o leiaf o addysg anstatudol y Blynyddoedd Cynnar a byddai'n sicrhau bod y ddarpariaeth yn fwy cyson ledled Sir Gaerfyrddin.

Nododd y Pwyllgor bryderon o ran effaith y newidiadau arfaethedig ar rieni a oedd yn cael chwe awr o ofal plant am ddim yn flaenorol, ond cydnabu mai nod y broses ad-drefnu oedd

sicrhau darpariaeth decach ar draws y sir. Dywedwyd y gallai'r newidiadau arwain at bwysau dros dro ar gapasiti meithrinfeydd, ac roedd yr Awdurdod yn gweithio gyda darparwyr preifat ac ysgolion lleol i fynd i'r afael â'r materion hyn. Rhoddwyd sicrwydd i'r aelodau hefyd fod yr Awdurdod yn parhau i fonitro'r galw am ffrwd cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Bro Banw yn unol â'i weledigaeth i ehangu addysg gyfrwng Cymraeg.

**Canlyniad:**

**Yn dilyn cyfnod o ymgynghori ac ystyried y sylwadau a wnaed gan y Pwyllgor Craffu Addysg a Phobl Ifanc, penderfynodd y Cabinet yn unfrydol, yn ei gyfarfod ym mis Ionawr 2024, gyhoeddi hysbysiad statudol i weithredu'r cynigion.**

### 2.6.3 Y Rhaglen Moderneiddio Addysg: Cynigion ar gyfer Ysgol Llansteffan, Ysgol Meidrim, Ysgol y Fro a dogfen ymgynghori ar gyfer Ysgol Pontiets

Bu'r Cabinet yn ystyried cynigion y Rhaglen Moderneiddio Addysg ar gyfer Ysgol Llansteffan, Ysgol Meidrim, Ysgol y Fro, a Dogfen Ymgynghori ar gyfer Ysgol Pontiets.

Nod y cynigion oedd mynd i'r afael â materion fel niferoedd isel iawn o ddisgyblion na ragwelwyd y byddant yn cynyddu'n ddramatig, niferoedd uchel o leoedd gwag gyda nifer uchel o ddisgyblion sy'n byw o fewn y dalgylch sy'n mynychu ysgolion eraill, diffygion ariannol neu sefyllfa ariannol anghynaliadwy a safonau addysg amrywiol. Ar ôl dadansoddi pob opsiwn, dywedwyd mai cau pob ysgol oedd yr opsiwn oedd yn cael ei ffafrio. Tynnwyd sylw at y ffaith bod Ysgol Llansteffan, Ysgol y Fro, ac Ysgol Meidrim wedi'u categoreiddio fel ysgolion gwledig a byddai angen cymryd camau ychwanegol i gydymffurfio â'r Côd Trefniadaeth Ysgolion (2018).

Adolygodd y Pwyllgor y goblygiadau ariannol a oedd yn nodi arbedion refeniw blynyddol disgwyliedig o £342,064 a derbyniad cyfalaf posibl o £695,000 o waredu adeiladau ysgol gwag. Yn ogystal, bu'r Pwyllgor yn ystyried goblygiadau oedd yn gysylltiedig â'r ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol, y continwwm Cymraeg, cludiant i ysgolion eraill a chapasiti yn yr ysgolion derbyn. Mynegwyd rhai gwendidau mewn perthynas â thrafodaethau llunio Cam 0 a phwysleisiwyd yr angen am ymgysylltu ystyrlon â staff, disgyblion, teuluoedd a'r gymuned ehangach hefyd.

Cyfeiriodd y Pwyllgor at yr angen i ymateb i'r heriau mewn perthynas ag adeiladau ysgol anaddas, niferoedd isel o ddisgyblion, safonau addysg, anawsterau recriwtio a chyfyngiadau cyllidebol. Daeth y Pwyllgor i'r casgliad bod angen gwneud penderfyniadau strategol, gwybodus mewn modd amserol i alluogi'r Awdurdod i ddatblygu'r ddarpariaeth addysg er budd disgyblion y sir.

**Canlyniad:**

**Yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd 2025, bu'r Cabinet yn ystyried yr adborth a roddwyd gan y Pwyllgor Craffu Addysg a Phobl Ifanc a phenderfynodd fwrw ymlaen â'r ymgynghoriad ffurfiol ynghylch Ysgol Meidrim ac Ysgol y Fro.**

**Ar ôl ystyriaeth gan y Pwyllgor Craffu Addysg a Phobl Ifanc ym mis Hydref 2025, a'r Cabinet ym mis Tachwedd 2025, penderfynodd y Cyngor Llawn, yn ei gyfarfod ym mis Mawrth 2026, weithredu'r cynnig i gau Ysgol Llansteffan o 31 Awst 2026 fel y nodir yn yr Hysbysiad Statudol.**

### 2.6.4 Diweddariad ar y Rhaglen Moderneiddio Addysg

Ym mis Hydref 2025 bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad cynnydd ynghylch gweithredu Strategaeth y Rhaglen Moderneiddio Addysg ers ei chymeradwyo gan y Cabinet ym mis Tachwedd 2024. Nod Strategaeth y Rhaglen Moderneiddio Addysg oedd cyflawni yn erbyn uchelgeisiau'r Awdurdod Lleol o ran Moderneiddio Ysgolion ac ad-drefnu yn ogystal â gosod buddsoddiad strategol a chynllun rhesymoli yr Awdurdod i drawsnewid darpariaeth ysgolion ar draws Sir Gaerfyrddin. Byddai Strategaeth y Rhaglen Moderneiddio Addysg yn cael ei chyflawni ar y cyd â Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru) drwy ddatblygu a gwella adeiladau, seilwaith a mannau sy'n cael eu gosod, eu dylunio, eu hadeiladu neu'u haddasu'n briodol i feithrin datblygiad cynaliadwy ar gyfer pobl a chymunedau Sir Gaerfyrddin.

**<u>Canlyniad:</u>**

**Cafodd y Pwyllgor gipolwg gwerthfawr ar y cynnydd a wnaed gan yr Awdurdod wrth weithredu'r Rhaglen Moderneiddio Addysg, gan gynnwys diweddariadau allweddol o ran adnewyddu ysgolion, cynlluniau buddsoddi mawr, cynigion ad-drefnu, cyllid grant Llywodraeth Cymru, gwaith y Ddeddf Cydraddoldeb, gwaith safle/traffig a'r adolygiad dalgylch.**

**Yn dilyn cais gan y Pwyllgor, cynhaliwyd gweithdy ym mis Ionawr 2026 a roddodd gyfle i'r Pwyllgor gyfrannu at yr adolygiad o ddalgylchoedd o ran cludiant, Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, ac ystyriaethau darpariaeth dysgu ôl-16.**

### 2.6.5 Y Rhaglen Moderneiddio Addysg: Cynnal a Chadw Adeiladau Ysgol a Dylunio Adeiladau Newydd - Heriau, Camau Gweithredu a Gwelliannau Strategol

Yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr 2025, bu'r Pwyllgor yn ystyried yr heriau sy'n gysylltiedig â chynnal a chadw adeiladau ysgol yn Sir Gaerfyrddin, y mesurau a weithredwyd i leihau pwysau ar ysgolion, a'r camau gweithredu a gymerwyd i symleiddio'r broses ddylunio ar gyfer adeiladu ysgol newydd yn dilyn gwersi a ddysgwyd o brosiectau blaenorol.

Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at yr ystad ysgol amrywiol yn y sir, a oedd yn cynnwys cyfran sylweddol o adeiladau a adeiladwyd cyn safonau modern ar gyfer effeithlonrwydd ynni a hygyrchedd. Cydnabu'r Pwyllgor ymrwymiad y cyngor i sicrhau amgylcheddau dysgu diogel, cynaliadwy ac ysbrydoledig wrth gydbwyso pwysau ariannol a rhwymedigaethau statudol.

Pwysleisiwyd bod ôl troed ysgolion yr Awdurdod yn cynnwys stoc adeiladau nad oedd yn ffafriol i ddarparu amgylcheddau dysgu sy'n addas ar gyfer addysgu a dysgu yn yr 21ain ganrif. Yn unol â Strategaeth ei Raglen Moderneiddio Addysg, nod yw Awdurdod oedd datblygu a gwella adeiladau, seilwaith a mannau sydd wedi'u lleoli, eu dylunio, eu hadeiladu neu'u haddasu'n briodol i sicrhau datblygu cynaliadwy ledled y sir. Mewn ymateb i sylwadau a wnaed, cadarnhawyd y gallai hyn gynnwys darparu ysgolion ardal.

**<u>Canlyniad:</u>**

**Daeth y Pwyllgor i'r casgliad bod ymagwedd y cyngor at gynnal a chadw adeiladau ysgolion a dylunio adeiladau newydd yn seiliedig ar dystiolaeth, yn rhagweithiol ac yn cyd-fynd â rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu Llywodraeth Cymru. Er bod heriau sylweddol yn parhau o ran seilwaith sy'n heneiddio, cydymffurfio a**

**chyfyngiadau ar adnoddau, dangosodd y mesurau a weithredwyd a'r mentrau parhaus ymrwymiad i welliant parhaus, cynaliadwyedd, a chreu amgylcheddau dysgu ysbrydoledig i blant a phobl ifanc Sir Gaerfyrddin.**

**Nododd yr Aelod Cabinet a'r Swyddogion y sylwadau a wnaed gan y Pwyllgor i'w hystyried wrth gyflawni Rhaglen Moderneiddio Addysg yr Awdurdod.**

#### 2.6.6 Y Rhaglen Moderneiddio Addysg: Cynnig i symud Ysgol Heol Goffa i safle newydd a chynyddu nifer y lleoedd i 150

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad ym mis Mai 2026 ynghylch y ddarpariaeth addysg yn y dyfodol yn Ysgol Heol Goffa, yn dilyn adolygiad annibynnol a gomisiynwyd gan Gyngor Sir Caerfyrddin a oedd wedi nodi pryderon o ran cyflwr gwael adeilad presennol yr ysgol.

Roedd yr opsiwn a ffefrir a nodwyd yn yr adolygiad yn cynnig datblygu adeilad ysgol newydd wedi'i ailgynllunio, mwy cost-effeithiol ac roedd y Pwyllgor yn cydnabod y byddai'r cynnig hwn yn darparu ateb hyfyw a chynaliadwy ar gyfer darpariaeth yn y dyfodol. Byddai'r cynnig hefyd yn cefnogi dyletswyddau statudol yr Awdurdod o dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 a byddai'n darparu model addysg arbenigol sy'n addas i'r dyfodol.

Nododd y Pwyllgor y byddai'r datblygiad arfaethedig yn gymwys i gael cyllid o 75% gan Lywodraeth Cymru drwy'r Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu, yn amodol ar gymeradwyo'r achos busnes llawn.

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y wybodaeth fanwl a nodwyd yn y ddogfen ymgynghori a'r asesiad effaith cysylltiedig a atodwyd i'r adroddiad a thrafododd ddulliau cyllido, darpariaeth ADY amgen a chydweithio ag asiantaethau eraill i gefnogi anghenion dysgwyr ag ADY.

**Canlyniad:**
**Daeth y Pwyllgor i'r casgliad mai datblygu ysgol arbennig newydd oedd yr opsiwn mwyaf effeithiol a chynaliadwy yn ariannol i ateb y galw presennol a'r galw a ragwelir a nododd y byddai angen proses statudol i symud yr ysgol a chynyddu nifer y lleoedd yn unol â'r canllawiau a nodir yn y Côd Trefniadaeth Ysgolion (2026).**

**Penderfynodd y Pwyllgor yn unfrydol argymell i'r Cabinet fod y cynnig i symud Ysgol Heol Goffa i safle newydd yn cael ei gymeradwyo, a chynyddu nifer y lleoedd i 150 o fis Medi 2029 pan gynigir agor adeilad newydd yr ysgol.**

## 2.7 Estyn

### 2.7.1 Y wybodaeth ddiweddaraf am gyhoeddiadau Adroddiadau Estyn

Cafodd gohebiaeth yn cynnwys gwybodaeth am gyhoeddiadau adroddiadau Estyn perthnasol a diweddaraf ei dosbarthu i'r Pwyllgor drwy e-bost ym mis Mehefin 2025, Hydref 2025, Rhagfyr 2025, Ionawr 2026, Mawrth 2026 a Mai 2026 mewn perthynas â'i adroddiadau arolygu a'i adroddiadau thematig oedd yn ymwneud ag addysg a hyfforddiant.

**Canlyniad:-**

**Roedd yr adroddiadau'n hysbysu'r Pwyllgor o ddatblygiadau/materion sy'n dod i'r amlwg ac yn rhoi cyfle i aelodau godi unrhyw faterion i'w hystyried ymhellach.**

### 2.7.2 2.6.5 Gwerthuso Arolygiadau Estyn ar draws Ysgolion, Unedau Cyfeirio Disgyblion a Lleoliadau Arbenigol yn Sir Gaerfyrddin

Yn ei gyfarfodydd ym mis Hydref 2025 a mis Mawrth 2026, adolygodd y Pwyllgor ganlyniadau arolygiadau Estyn yn y sir yn ystod y pum mlynedd diwethaf. Roedd yr adroddiadau yn nodi'r fframwaith arolygu newydd a fabwysiadwyd gan Estyn ym mis Medi 2024, ac yn rhoi crynodeb o'r arfer cryf neu effeithiol a nodwyd gan arolygwyr Estyn i'w rannu ag eraill.

Adolygodd y Pwyllgor y prif themâu a oedd wedi deillio o argymhellion Estyn, a ddangosai'r cynnydd roedd yr is-adran wedi'i wneud. Rhoddwyd sicrwydd i'r Pwyllgor fod yr holl argymhellion wedi'u dadansoddi a'u defnyddio i lywio cynllunio busnes a ffocws strategol yr adran.

**<u>Canlyniad:-</u>**

**Cafodd y Pwyllgor gipolwg ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant o fewn ysgolion y Sir. Nododd yr adroddiadau gryfderau a meysydd i'w gwella o fewn ysgolion er mwyn galluogi darparu mesurau cymorth perthnasol i'w targedu yn ôl meysydd angen.**

### 2.7.3 Ymweliad Arolygydd Arweiniol Estyn â'r Awdurdod Lleol

Ym mis Hydref 2025, cafodd y Pwyllgor adroddiad i'w ystyried a oedd yn manylu ar ganlyniad ymweliad Arolygydd Arweiniol Estyn â'r awdurdod lleol ym Mehefin 2025. Roedd yr arolygiad yn canolbwyntio ar y cymorth roedd yr Awdurdod yn ei ddarparu i ysgolion er mwyn galluogi disgyblion i gyrraedd eu potensial llawn, a'r datblygiadau i fynd i'r afael ag oedi gan yr Awdurdod mewn perthynas â'i gynlluniau i aildrefnu a moderneiddio addysg yn llawn.

Ar gais y Pwyllgor, rhoddwyd diweddariad pellach ym mis Mawrth 2026. Roedd yr adroddiadau yn amlygu'r cynnydd a wnaed mewn perthynas â datblygu'r cwricwlwm a darparu cymorth i ysgolion. Roedd yr adroddiadau'n cadarnhau bod yr Awdurdod wedi parhau i ddarparu rhaglenni dysgu proffesiynol a oedd yn canolbwyntio ar ddylunio'r cwricwlwm, cynllunio, gwerthuso ac asesu ac roedd strwythurau cydweithredol wedi'u sefydlu i gefnogi cynnydd a chysondeb ar draws lleoliadau uwchradd.

O ran y cynnydd a wnaed ynglŷn â'r Rhaglen Moderneiddio Addysg, roedd yr Awdurdod wedi dechrau sawl proses statudol ers 2023 gyda'r nod o ad-drefnu a moderneiddio'r ddarpariaeth addysg.

**<u>Canlyniad:-</u>**

**Rhoddodd ymweliad yr Arolygydd Arweiniol Awdurdod Lleol adborth ar feysydd ffocws allweddol i gefnogi'r Awdurdod Lleol yn ei gylch gwella. Adolygodd a**

**chymeradwyodd y Pwyllgor y camau a gymerwyd gan yr Awdurdod i fynd i'r afael â'r ystyriaethau a nodwyd gan yr arolygiad.**

### 2.7.4 DIWEDDARIAD AR BRESENOLDEB YSGOL YN DILYN ARGYMHELLIAD ESTYN

Ar gais y Pwyllgor, cynhaliwyd gweithdy ym mis Medi 2025 a oedd yn rhoi cyfle i aelodau adolygu effaith ffrydiau gwaith y tîm ar ffigurau presenoldeb ysgol [gweler adran 3.3]. Ar ôl hyn rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad ffurfiol ym mis Mawrth 2026 lle adolygodd y Pwyllgor y camau gweithredu a gymerwyd i wella presenoldeb yn yr ysgol yn Sir Gaerfyrddin ers argymhelliad Estyn yn 2023, gan nodi'r ymdrechion i gryfhau dadansoddiad data, hyfforddiant staff ac ymgysylltiad ag ysgolion a theuluoedd. Roedd y lefelau presenoldeb yn 90% ym mis Chwefror 2026 ac roeddent yn parhau i gael eu monitro trwy systemau dadansoddol gwell ac offer Power BI. Adolygodd y Pwyllgor ymyriadau aml-haen y Gwasanaeth Lles Addysg ar gyfer disgyblion â lefelau presenoldeb isel a'i weithgarwch gweithredol ehangach, gan gynnwys ymweliadau ysgolion, gwaith achos, canllawiau a chefnogaeth wedi'u diweddaru ar gyfer yr ymgyrch "Colli Ysgol, Colli Cyfle. Rhoddwyd ystyriaeth hefyd i fentrau cydweithredol yn ymwneud â dysgwyr agored i niwed, ymgysylltu ieuenctid a chysylltiadau â'r cwricwlwm, a chydnabu'r blaengynllun gwaith, a oedd yn canolbwyntio ar wella pwyntiau pontio, mynd i'r afael â chodau presenoldeb penodol, parhau â hyfforddiant a chydweithio parhaus, ac ymateb i ganfyddiadau llais y disgybl i lywio strategaeth yn y dyfodol.

**Canlyniad:**

**Tynnodd y Pwyllgor sylw at y materion systemig a effeithiai ar lefelau presenoldeb ysgolion, gan gynnwys sefyllfa ariannol teuluoedd, anweithgarwch economaidd, a ffactorau cyfrannol eraill megis diffyg cludiant ysgol ac anallu ysgolion i ddiwallu anghenion plant niwroamrywiol. Roedd yn cael ei gydnabod bod angen dull cydgysylltiedig a hyblyg ar draws y Cyngor er mwyn mynd i'r afael â'r materion ehangach a effeithiai ar bresenoldeb ysgol ac er mwyn gweithredu mesurau i helpu teuluoedd ac ysgolion i oresgyn y rhwystrau hyn.**

**Cymeradwyodd y Pwyllgor y mesurau sydd wedi'u rhoi ar waith hyd yma a bydd yn ystyried diweddariadau pellach yn y dyfodol i gefnogi'r Awdurdod o ran mynd i'r afael ag Argymhellion Estyn.**

## 2.8 Ysgolion

### 2.8.1 Sicrhau Ansawdd Ysgolion ac Unedau Cyfeirio Disgyblion

Ym mis Mawrth 2026, adolygodd y Pwyllgor ddull yr Awdurdod tuag at sicrhau ansawdd ysgolion ac Unedau Cyfeirio Disgyblion yng nghyd-destun canllawiau diweddaraf Llywodraeth Cymru, yr egwyddorion oedd yn sail i wella ysgolion, a fframwaith strategol yr Awdurdod ar gyfer cefnogi lleoliadau addysg. Rhoddwyd sicrwydd i'r Pwyllgor fod y Strategaeth Gwella Ysgolion yn cyd-fynd â disgwyliadau cenedlaethol a meysydd arolygu

Estyn, a sut roedd gwelliant cydweithredol—o fewn clystyrau ac ar draws ysgolion—wedi'i hwyluso drwy waith Ymgynghorwyr Cymorth Addysg.

Bu'r Pwyllgor yn ystyried effaith pwysau ariannol, adnoddau a chapasiti ar wella ysgolion, gan nodi rôl a llesiant Ymgynghorwyr Cymorth Addysg, ymgysylltiad cadarnhaol arweinwyr ysgolion, a manteision gweithio ar y cyd. Myfyriodd yr Aelodau hefyd ar yr heriau sy'n wynebu Cyrff Llywodraethu Ysgolion wrth fynd i'r afael â chynaliadwyedd ariannol a'r ystod o ddysgu proffesiynol a datblygu arweinyddiaeth sydd ar gael iddynt. Croesawyd gweithredu'r Model Pedwar Cam o Gymorth Ymddygiad a Llesiant Emosiynol i ddarparu cefnogaeth gyson i ddysgwyr a staff ledled y sir hefyd gan y Pwyllgor.

**Canlyniad:**

**Cafodd y Pwyllgor gipolwg gwerthfawr ar y broses sicrhau ansawdd ar gyfer ysgolion ac Unedau Cyfeirio Disgyblion a chymeradwyodd y dulliau sydd ar waith yn yr Awdurdod ar gyfer monitro perfformiad, rhannu arferion er mwyn helpu ysgolion i gyflawni cynnydd cydlynol i ddysgwyr ar draws y continwwm 3–16.**

**Cefnogodd y Pwyllgor wella ar y cyd fel ymagwedd graidd at sicrhau gwelliant cynaliadwy mewn ysgolion, ac at gryfhau addysgu a dysgu, arweinyddiaeth, tegwch, cynhwysiant a llesiant, a hynny drwy rannu arferion a chyfuno capasiti.**

### 2.8.2 Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Drawsnewid y Gwasanaethau Addysg

Ym mis Mai 2026 bu'r Pwyllgor yn ystyried diweddariad ar yr hyn sydd wedi'i gyflawni hyd yn hyn yn erbyn y ffrwd waith ysgolion sy'n rhan o Raglen Waith Strategaeth Drawsnewid y Cyngor a oedd yn ceisio:

- gwella'r ddealltwriaeth a'r defnydd o ddata a gwybodaeth i gefnogi ysgolion i gynyddu effeithlonrwydd ariannol a phennu cyllideb gynaliadwy gan gynnwys;
- Gweithredu canfyddiadau'r asiantaeth a'r adolygiad â ffocws o adroddiadau cyllidebau ysgolion;
- Ymchwilio i ddulliau o ymdrin â strwythurau ysgolion clwstwr/a rennir a swyddogaethau swyddfa gefn i gefnogi'r defnydd o arbedion maint ac effeithlonrwydd gweithredu ar draws y portffolio ysgolion;
- Gwella effeithiolrwydd cynllunio a monitro ariannol mewn ysgolion trwy ddatblygu sgiliau a defnyddio systemau a thechnoleg briodol;
- Defnyddio trawsnewid i gefnogi'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy.

Bu'r Pwyllgor yn adolygu'r cynnydd a oedd yn cael ei wneud o ran cyflawni'r prosiectau a oedd yn crynhoi statws pob adolygiad ac yn dangos bod y rhan fwyaf o'r prosiectau wedi'u cwblhau neu'n gwneud cynnydd yn ôl y bwriad. Er bod cynnydd arafach wedi'i wneud o ran gweithredu Archebu Electronig a pharu anfonebau i wella effeithiolrwydd cynllunio a monitro ariannol mewn ysgolion, cytunwyd ar adnoddau dros dro ychwanegol gan y tîm Trawsnewid i gefnogi'r prosiect hwn.

**Canlyniad:**

**Bydd y Pwyllgor yn parhau i fonitro'r camau gweithredu i gynorthwyo ysgolion i nodi gostyngiadau mewn costau a ffyrdd gwell o weithio a chefnogi'r gwaith o ddatblygu**

**cyllidebau ysgol mwy cynaliadwy a helpu diogelu darpariaeth academaidd rheng flaen.**

### 2.8.3 Darpariaeth y Gwasanaeth Cerdd yn Sir Gaerfyrddin

Ym mis Mai 2026 cafodd y Pwyllgor adroddiad i'w ystyried a oedd yn rhoi trosolwg o ddarpariaeth statudol ac anstatudol y gwasanaeth cerdd yng Nghyngor Sir Caerfyrddin. Roedd yr adroddiad yn amlinellu cwmpas y ddarpariaeth ar draws ysgolion a chymunedau, gan gynnwys cymorth â'r cwricwlwm, gwersi offerynnol a lleisiol a chyfleoedd ensemble.

Roedd y diweddariad yn tynnu sylw at sut roedd y gwasanaeth yn cyd-fynd â blaenoriaethau cenedlaethol, gan gynnwys y Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Addysg Cerddoriaeth a'r Cwricwlwm i Gymru. Yn ogystal, rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor am ddatblygiadau, partneriaethau a chyflawniadau diweddar, ynghyd â rôl barhaus y gwasanaeth o ran cefnogi dysgwyr, ysgolion a'r gymuned ehangach ledled Sir Gaerfyrddin.

Daethpwyd i'r casgliad fod Gwasanaeth Cerdd Sir Gaerfyrddin yn parhau i ddarparu darpariaeth gynhwysol o safon uchel, wedi'i halinio'n strategol, i gefnogi dros 2,500 o ddysgwyr ar draws y sir. Trwy bartneriaethau cryf gydag ysgolion a Choleg Sir Gâr ac alinio'n llwyr â blaenoriaethau cenedlaethol, roedd y gwasanaeth mewn sefyllfa dda i fodloni disgwyliadau'r Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Addysg Cerddoriaeth wrth gyfrannu'n ystyrlon at bedwar diben y Cwricwlwm i Gymru.

**Canlyniad:**

**Cymeradwyodd y Pwyllgor y ddarpariaeth gwasanaeth cerdd o fewn y Cyngor am ei gyfraniad rhagorol i ddatblygiad dysgwyr ledled Sir Gaerfyrddin a phwysleisiodd bwysigrwydd addysg gerddorol am resymau sy'n ymwneud ag iechyd a llesiant, meithrin hyder, gwerthfawrogi diwylliannol, datblygiad gwybyddol a chreadigrwydd. Daeth y Pwyllgor i'r casgliad y dylid diogelu cyllid ar gyfer y gwasanaeth yng ngoleuni'r amrywiaeth o fanteision sy'n deillio o addysg cerddoriaeth.**

### 2.8.4 Addysg Ôl-16 ALl Sir Gaerfyrddin

Ym mis Mai 2026 cafodd y Pwyllgor adroddiad i'w ystyried a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am strategaeth tair blynedd yr awdurdod ar gyfer Addysg Ôl-2026, gan gynnwys darpariaeth chweched dosbarth.  Datblygwyd y strategaeth yng nghyd-destun y corff rheoleiddio newydd ar gyfer addysg drydyddol, newidiadau demograffig a Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg.

Adolygodd y Pwyllgor y cydweithio parhaus ac yn y dyfodol ag ysgolion partner, darparwyr addysg bellach a sefydliadau addysg uwch, ynghyd â chynlluniau i adolygu darpariaeth ôl-16 yn 2027 yng ngoleuni canlyniadau dysgwyr, cyrchfannau a data perfformiad.

**Canlyniad:**

**Cymeradwyodd y Pwyllgor ymdrechion yr Awdurdod i gynnal y dewis o bynciau, cefnogi canlyniadau dysgwyr, a sicrhau cynaliadwyedd a thegwch hirdymor addysg ôl-16 ledled y sir.**

**Rhoddir diweddariad pellach i'r Pwyllgor yn ystod 2026/27, gyda sylwadau gan Goleg Sir Gâr i drafod datblygiadau diweddar mewn perthynas â'r cynnig dysgu ôl-16.**

## 2.9 Yr Iaith Gymraeg

### 2.9.1 Y Wybodaeth Ddiweddaraf am y Ddarpariaeth Cymraeg i Oedolion

Yn ystod y cyfnod adrodd cafodd y Pwyllgor ddau ddiweddariad i fonitro cynnydd yn dilyn trosglwyddo'r ddarpariaeth Cymraeg i Oedolion Gyngor Sir Caerfyrddin i'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

Adolygodd y Pwyllgor y broses o drosglwyddo'r gwasanaeth o ran staffio, darpariaeth gwasanaethau, mentrau partneriaeth a ffigurau cofrestru a nododd fod y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol wedi penodi Prifysgol Aberystwyth i ddarparu'r cyrsiau ar ei rhan.

Nododd y Pwyllgor y perfformiad cadarnhaol o ran ffigurau cofrestru, cadw dysgwyr a chynnydd. Croesawyd ehangu darpariaeth y cyrsiau hefyd gan Aelodau, yn ogystal â gwaith ar y cyd Fforwm Strategol y Gymraeg i hyrwyddo mentrau Cymraeg ar draws y sir.

**<u>Canlyniad:</u>**

**Nododd yr adroddiad fod y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol wedi monitro'r broses o drosglwyddo darpariaeth Cymraeg i Oedolion yn fanwl ac roedd y Pwyllgor yn fodlon ar y trefniadau darparu yn Sir Gaerfyrddin.**

### 2.9.2 Diweddariad Cynnydd ar weithredu Strategaeth Gymraeg y Cyngor

Ym mis Hydref 2025 cafodd y Pwyllgor adroddiad i'w ystyried a oedd yn nodi'r cynnydd a wnaed mewn perthynas â gweithredu Strategaeth Hybu'r Iaith Gymraeg y Cyngor, ynghyd â diweddariad ar y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg.

Edrychodd y Pwyllgor ar y datblygiadau a wnaed gan Fforwm Strategol y Gymraeg o ran goruchwylio'r gwaith a monitro'r strategaeth, a chymeradwyodd y camau a gymerwyd ac a gynlluniwyd o ran technoleg ddigidol, tai, dysgu Cymraeg i oedolion, a chydweithio â Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg. Roedd datblygiadau allweddol o ran gweithredu'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn cynnwys penodi Rheolwr Datblygu'r Gymraeg, integreiddio'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg i Fforwm Strategol Sirol y Gymraeg, a lansio partneriaethau gyda sefydliadau fel y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i fentrau allweddol oedd ar waith ac ar y gweill i ehangu canolfannau trochi ar gyfer y Gymraeg, cynnal archwiliadau gallu iaith, a hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg drwy ymgyrchoedd wedi'u targedu.

**<u>Canlyniad:</u>**

**Ar y cyfan, cymeradwyodd y Pwyllgor y cynnydd a gyflawnwyd a'r camau arfaethedig i gefnogi twf hirdymor y defnydd o'r Gymraeg ar draws y sir.**

# 3 Gweithgarwch Craffu Arall

## 3.1 Gorchwyl a Gorffen

Ni wnaeth y Pwyllgor gynnal adolygiad gorchwyl a gorffen yn ystod y cyfnod adrodd.

## 3.2 Ymweliadau Safle

Yn ystod y cyfnod adrodd ymwelodd y Pwyllgor â'r ysgolion canlynol:

- Canolfan Addysgu a Dysgu Uwchradd Sir Gaerfyrddin - Safle Caerfyrddin
- Canolfan Addysgu a Dysgu Uwchradd Sir Gaerfyrddin - Safle Porth Tywyn

Rhoddodd yr ymweliadau gipolwg i'r Pwyllgor ar effaith yr amgylchedd dysgu ar ddatblygiad disgyblion.

**Canlyniad:**

**Ystyrir Ymweliadau Safle pellach ar gyfer 2026/27 a fydd yn hwyluso'r Pwyllgor wrth ystyried y Rhaglen Moderneiddio Addysg (ASE).**

## 3.3 Sesiynau Datblygu

Yn ystod blwyddyn y cyngor 2025/26, gwahoddwyd Aelodau'r Pwyllgor i'r sesiynau/seminarau datblygu canlynol a drefnwyd gan yr Awdurdod:-

| Dyddiad | Sesiwn Datblygu / Seminar |
|---|---|
| 19/06/25 | Hyfforddiant Gorfodi Rheolau Cynllunio |
| 09/07/25 | Proses Cyhoeddusrwydd Cynllunio |
| 17/07/25 | Partneriaeth Pensiwn Cymru |
| 23/07/25 | Sesiwn Ymwybyddiaeth a Strategaeth AI |
| 01/08/25 | Ymgynghoriad Cynllun Gwasanaethau Clinigol - Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| 10/09/25 a 12/11/25 | Sesiynau galw heibio system e-ddysgu Thinqi |
| 12/11/25 | Cynlluniau Creu Lleoedd Canol Trefi |
| 03/12/25 | Diweddariad Cynllun Gwasanaethau Clinigol – Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| 10/12/25 | Diweddariad Blynyddol gan Wasanaeth Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru cyn Pennu'r Gyllideb |
| 07/01/26 | Hyfforddiant Tân |
| 05/02/26 a 11/02/26 | Atal Aflonyddu Rhywiol yn y Gweithle |

| | |
|---|---|
| 20/02/26 | Datblygu Briffiad o Arwyddocâd Cenedlaethol |
| 04/03/26 | Diwrnod y Lluoedd Arfog |
| 09/03/26 | Gwelliannau i'r A48 |
| 16/03/26 | Hyfforddiant Gofyn a Gweithredu |

Yn ogystal â'r sesiynau / seminarau Datblygu Corfforaethol uchod, aeth yr aelodau i sawl seminar ar y gyllideb fel rhan o broses ymgynghori'r Cyngor ar Gyllideb Refeniw 2026-27 a'r rhaglen gyfalaf bum mlynedd. Cynhaliodd y Pwyllgor y sesiynau pwrpasol canlynol hefyd:

Yn ogystal â'r sesiynau / seminarau Datblygu Corfforaethol uchod, cynhaliodd y Pwyllgor y sesiynau pwrpasol canlynol:

| Dyddiad | Sesiwn / Gweithdy Datblygu |
|---|---|
| 01/09/2025 | **Absenoldeb Ysgol**<br><br>Cafodd y Pwyllgor gipolwg ar y problemau presenoldeb sy'n gyffredin ar draws ysgolion a chafodd wybod am yr ystod o raglenni cymorth sydd ar waith ar gyfer dysgwyr.<br><br>**Canlyniad:**<br><br>Cymeradwyodd y Pwyllgor y mesurau sydd wedi'u rhoi ar waith hyd yma a bydd yn monitro'r sefyllfa i gefnogi'r Awdurdod o ran mynd i'r afael ag Argymhellion Estyn mewn perthynas â phresenoldeb. |
| 12/01/2026 | **Cynlluniau Cyflawni Is-adrannol - Blaenoriaethau'r Adran Addysg a Hamdden**<br><br>Cynhaliwyd gweithdy i ystyried y Cynlluniau Cyflawni Gwasanaeth Is-adrannol er mwyn galluogi aelodau i gael eu gwerthuso o'r prif risgiau a'r meysydd ffocws sy'n berthnasol i gylch gwaith y Pwyllgor Craffu.<br><br>**Canlyniad:**<br><br>Rhoddodd y gweithdy gyd-destun i'r wybodaeth a nodir yn y Cynlluniau. Yn dilyn hynny, cymeradwyodd y Pwyllgor y Cynlluniau Busnes sy'n berthnasol i'r Adran Addysg a Hamdden ar gyfer 2026/27 yn ei gyfarfod ar 20 Ionawr 2026. |
| 20/01/2026 | **Adolygiad o Ddalgylchoedd**<br><br>Cynhaliwyd gweithdy i roi cynigion cychwynnol i'r Pwyllgor o ran adolygiad dalgylchoedd ysgolion yng nghyd-destun y Rhaglen Moderneiddio Addysg, y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, Datblygiadau Tai, effeithlonrwydd ariannol a thrafnidiaeth.<br><br>**Canlyniad:** |

| | |
|---|---|
| | Roedd yr adborth ar lafar a ddarparwyd i Swyddogion yn y gweithdy wedi helpu i lunio'r prosesau a fabwysiadwyd gan yr Awdurdod Lleol, o fewn ffiniau gofynion deddfwriaethol. |
| 16/03/2026 | **Grwpiau Penaethiaid**<br><br>Rhoddodd y Sesiwn Ddatblygu drosolwg o'r gwaith ar y cyd, yr heriau presennol a'r cyfleoedd sydd gan ysgolion.<br><br>**Canlyniad:**<br>Rhoddodd y Sesiwn Ddatblygu gyda chynrychiolwyr y Grŵp Penaethiaid gyfle i aelodau adolygu a chyfrannu at y ffrydiau gwaith parhaus. |
| 16/03/2026 | **Cyllidebau Ysgol**<br><br>Cynhaliwyd Sesiwn Ddatblygu i roi trosolwg o'r cynnydd a wnaed i gefnogi ysgolion i wella eu sefyllfaoedd cyllidebol.<br><br>**Canlyniad:**<br>Rhoddodd y sesiwn ddatblygu gipolwg i'r Pwyllgor ar y gwaith parhaus i ddarparu cefnogaeth, cyngor a her wedi'u teilwra i ysgolion cynradd ac uwchradd unigol.<br><br>Yn sgil y pryderon a godwyd ynghylch lefel y diffygion o fewn cyllidebau ysgolion dirprwyedig, pwysleisiodd y Pwyllgor fod angen newidiadau sylfaenol i fynd i'r afael â'r sefyllfa yn y dyfodol. Bydd y Pwyllgor yn monitro'r sefyllfa drwy ddiweddariadau pellach fel rhan o'i Flaengynllun Gwaith. |

# 4. Effaith

## 4.1 Sut mae Craffu wedi gwneud gwahaniaeth eleni?

Mae'r rhan fwyaf o'r penderfyniadau a wneir gan yr Awdurdod yn cael eu gwneud gan y Cabinet. Mae'r broses graffu'n rhoi cyfle i'r 65 o gynghorwyr anweithredol eraill ddylanwadu ar y penderfyniadau hynny a gweithredu fel 'cyfaill beirniadol". Mae Craffu Cyn Gwneud Penderfyniadau yn arbennig o ddylanwadol yn hyn o beth gan ei fod yn rhoi cyfle i Bwyllgorau Craffu ystyried a rhoi sylwadau ar bolisïau a materion sy'n dod i'r amlwg cyn iddynt gael eu hystyried gan y Cabinet a dyma lais y bobl. Hefyd mae Craffu yn helpu i sicrhau bod polisïau'r Cyngor yn adlewyrchu'r blaenoriaethau cyfredol, yn ogystal â hyrwyddo effeithlonrwydd ac yn annog cydweithio effeithiol â chyrff allanol.

Mae'r Pwyllgor Craffu Addysg a Phobl Ifanc yn ymdrechu i ymgymryd â gwaith ystyrlon sy'n cyfrannu at bolisïau, gwneud penderfyniadau a gwell gwasanaethau i bobl a phlant Sir Gaerfyrddin. Mae'r swyddogaeth graffu hefyd wedi chwarae rôl bwysig o ran sicrhau bod polisïau'r Cyngor yn adlewyrchu blaenoriaethau cyfredol, yn ogystal â hyrwyddo effeithlonrwydd ac annog cydweithio effeithiol â chyrff allanol. Mae cyfraniad rhanddeiliaid

allweddol, gan gynnwys preswylwyr lleol, sefydliadau a phartneriaid yn y gymuned yn rhan bwysig o'r broses graffu ac mae ein Cynghorwyr wedi ymrwymo i ymateb i sylwadau a phryderon preswylwyr.

Yn ystod blwyddyn y cyngor, mae'r Pwyllgor Craffu Addysg a Phobl Ifanc wedi cael craffu ar ystod eang ac amrywiol o bynciau sy'n berthnasol i'w gylch gwaith ac mae wedi cael effaith gadarnhaol mewn sawl ffordd, gan gynnwys:-

- Cynorthwyo'r Awdurdod o ran ei ymdrechion i wella sefyllfa gyllidebol ysgolion drwy oruchwylio'r gwaith o werthuso'r arferion cyllidebol cyfredol, nodi arferion gorau a gweithredu mecanweithiau monitro yn y dyfodol.

- Adolygu trefniadau a blaenoriaethau uchelgeisiol yr Awdurdod i sicrhau bod plant, pobl ifanc a dysgwyr o bob oed yn Sir Gaerfyrddin yn hapus, yn ddiogel, ac yn ffynnu, ac yn cyflawni eu potensial personol a chymdeithasol a'u potensial o ran dysgu.

- Llunio'r gwaith o ddatblygu Strategaethau fel y Rhaglen Moderneiddio Addysg (ASE).

- Monitro'r gwaith o weithredu Strategaeth Hybu'r Iaith Gymraeg.

- Tynnu sylw at gyfleoedd gwella wrth ddarparu gwasanaethau, gan gynnwys cyfrannu at yr Adolygiad o Raglen Drawsnewid y Gwasanaethau Addysg i lywio polisïau a gweithdrefnau'r Awdurdod.

- Codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o wasanaethau allweddol y Cyngor – gan gynnwys beth sy'n gweithio'n dda, a lle mae angen gwneud gwelliannau.

- Darparu arena ar gyfer y rhai sy'n gwneud penderfyniadau, rhanddeiliaid a chydweithrediad cyhoeddus.

- Ymgymryd â'i rôl porthgadw er mwyn sicrhau bod y materion cyllidebol a pherfformiad o fewn ei gylch gwaith yn cael eu rheoli'n effeithiol.

- Dal Aelodau Cabinet i gyfrif a darparu her a mewnbwn adeiladol i ystod o faterion polisi a gwasanaeth.

## 5. Ymgysylltu â'r Cyhoedd

Mae'r swyddogaeth graffu yn rhoi cyfle i'r cyhoedd gymryd rhan yng ngweithgareddau'r Awdurdod lle gall aelodau o'r cyhoedd ofyn am i eitemau gael eu gosod ar agenda cyfarfod y Pwyllgor. Mae'r rhai sy'n byw yn Sir Gaerfyrddin, neu sy'n berchen ar fusnes neu'n cael eu cyflogi yn y sir, hefyd yn cael gofyn cwestiynau yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Craffu.

Er na dderbyniodd y Pwyllgor unrhyw awgrymiadau o bynciau posibl gan y cyhoedd yn ystod y cyfnod adrodd, roedd Blaengynllun Gwaith y Pwyllgor yn cynnwys amrywiaeth o bynciau a oedd yn gofyn am ymgynghori â'r cyhoedd/cynnwys y cyhoedd.

Er mwyn hyrwyddo ymwybyddiaeth y cyhoedd o Bwyllgorau Craffu a gallu'r cyhoedd i gyflwyno pynciau i'w trafod, cyhoeddir Blaengynlluniau Gwaith Pwyllgorau Craffu yr Awdurdod, a manylion ynghylch sut y gall y cyhoedd gymryd rhan, ar wefan yr Awdurdod:- https://www.carmarthenshire.gov.wales/home/council-democracy/committees-meetings/scrutiny/#.Xp7Am6aQxMs

Yn ystod blwyddyn y cyngor, rhoddodd is-adran Gyfathrebu yr Awdurdod gymorth marchnata digidol i'r swyddogaeth Graffu gan chwarae rôl o ran hyrwyddo manylion eitemau ar gyfer y dyfodol a allai fod o ddiddordeb i'r cyhoedd mewn ymgais i gynyddu ymwybyddiaeth a chyfranogiad y cyhoedd. Gwahoddir y cyhoedd, drwy nifer o wahanol ffyrdd, i gymryd rhan yn y broses Graffu ac i dynnu sylw at unrhyw faterion sy'n peri pryder.

## 6. Heriau

Parhaodd yr adran Addysg a Hamdden i fod dan bwysau trwy gydol blwyddyn y cyngor o ganlyniad i gyfyngiadau cyllidebol. Serch hynny, mae'r adran wedi addasu a datblygu atebion i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc ledled Sir Gaerfyrddin. Mae wedi bod yn fater o gydbwysedd i'r Pwyllgor, rhwng cyflawni ei ddyletswyddau craffu a pheidio ag effeithio ar ariannu gwasanaethau rheng flaen.

Yn ystod y cyfnod adrodd, ni adroddwyd am rai eitemau yn unol â'r Blaengynllun Gwaith a osodwyd gan y Pwyllgor. Mae hyn wedi tynnu sylw at yr angen i amseriad gweithgarwch craffu gael ei adolygu ar y cyd â Swyddogion i sicrhau bod pynciau'n cael eu trafod ar yr adeg iawn er mwyn galluogi trafodaeth ystyrlon, ymgysylltu a'r effaith a'r gwerth mwyaf posibl.

Mae'r oedi cyn cael adroddiadau ariannol a pherfformiad hefyd wedi'i nodi fel her lle nodwyd y byddai prydlondeb gwell o ran cael gwybodaeth am fonitro ariannol yn cefnogi craffu effeithiol yn well.

## 7. Gwaith yn y Dyfodol

Mae'r Pwyllgor yn defnyddio egwyddorion y Ganolfan Llywodraethu a Chraffu er mwyn cyflawni proses graffu syml a phendant. Cafodd pynciau craffu ar gyfer 2026/27 eu hystyried gan y Pwyllgor mewn sesiwn Blaengynllunio Gwaith ar 17 Ebrill 2026 a byddant yn cael eu hadolygu'n rheolaidd drwy gydol y flwyddyn.

Bydd y Pwyllgor yn parhau i ganolbwyntio ar bynciau lle bydd cyfraniadau'r aelodau'n arwain at ganlyniadau cadarnhaol i ysgogi gwelliannau yn y gwasanaeth. Ymhellach, er mwyn gwella swyddogaeth graffu'r Awdurdod, bydd aelodau'n parhau i fynd i sesiynau datblygu, yn gofyn am gyngor y swyddogion lle y bo'n briodol ac yn manteisio'n llawn ar drafodaeth anffurfiol cyn cyfarfodydd. Mae rhai o'r meysydd ffocws ar gyfer y Pwyllgor yn ystod cyfnod blwyddyn y cyngor sydd i ddod yn cynnwys:

- Gweithredu'r Rhaglen Moderneiddio Addysg.
- Deall y pwysau parhaus sy'n wynebu pob gwasanaeth o dan ei gylch gorchwyl; ac effaith cyflwyno deddfwriaeth newydd/ychwanegol sy'n effeithio ar wasanaethau a phartneriaid ehangach.
- Parhau i fonitro Adfer mewn Ysgolion, yn enwedig mewn perthynas â chyllidebau, presenoldeb a chyrhaeddiad, ymddygiad, iechyd meddwl a lles ar draws gwasanaethau a thu hwnt.
- Parhau i edrych ar effaith diwygio Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) ar Ysgolion, gan gynnwys sicrhau bod capasiti yn gallu cwrdd â'r galw yn y maes hwn.
- Monitro perfformiad, yn enwedig capasiti a'r galw am wasanaethau a phrosesau sicrhau ansawdd.

## 8. Cefnogi'r Swyddogaeth Graffu

Mae'r cymorth a roddir i swyddogaeth graffu Cyngor Sir Caerfyrddin yn cael ei ddarparu gan yr Uned Gwasanaethau Democrataidd yn yr Is-adran Gweinyddiaeth a'r Gyfraith yn Adran y Prif Weithredwr. Mae'r cymorth a roddir i'r swyddogaeth graffu yn cynnwys y canlynol:-

- llunio ac anfon agendâu ar gyfer cyfarfodydd y Pwyllgor Craffu yn unol â'r Blaengynlluniau Gwaith;
- darparu cymorth a chyngor cyfansoddiadol i'r Pwyllgorau Craffu ac i aelodau'r Pwyllgorau hynny yn ogystal â llunio cofnodion eu cyfarfodydd a sicrhau bod unrhyw faterion sy'n codi o'r cyfarfodydd hynny yn cael eu gweithredu;
- rhoi cymorth a chyngor mewn perthynas â swyddogaethau Pwyllgorau Craffu'r Cyngor i aelodau'r Cyngor a'i swyddogion;
- rheoli datblygiad strategol Craffu yn Sir Gaerfyrddin trwy ymwneud â rhwydweithiau a mentrau Craffu cenedlaethol a rhanbarthol, cefnogi Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu, a chyfarfodydd y Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu gyda'r Cabinet;
- rhoi cyngor a chymorth yn y gwaith o weithredu gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, wrth i'r canllawiau gael eu cyhoeddi;
- rheoli cydlyniad a datblygiad Blaengynlluniau Gwaith y Pwyllgorau Craffu ar y cyd ag aelodau'r Pwyllgorau Craffu;
- rheoli a chydlynu gwaith adolygu'r swyddogaeth Graffu, gan gynnwys gweinyddu grwpiau gorchwyl a gorffen ym maes craffu, cynorthwyo i lunio adroddiadau ar y cyd â'r grwpiau, a chynorthwyo i weithredu a monitro'r adolygiadau a gwblhawyd.
- cynorthwyo â Rhaglen Datblygu Aelodau'r Pwyllgorau Craffu.

I gael rhagor o wybodaeth am Graffu yn Sir Gaerfyrddin gan gynnwys Blaengynlluniau Gwaith, adroddiadau Gorchwyl a Gorffen ac Adroddiadau Blynyddol, ewch i wefan y Cyngor Sir: www.sirgar.llyw.cymru/craffu.

I gysylltu â'r Uned Gwasanaethau Democrataidd, ffoniwch 01267 224028 neu e-bostiwch craffu@sirgar.gov.uk.

## 9. Presenoldeb

Dangosir presenoldeb gan aelodau'r Pwyllgor Craffu Addysg a Phobl Ifanc yn ystod blwyddyn y cyngor 2025/26 yn y tabl isod. Cynhaliwyd cyfanswm o bum cyfarfod ffurfiol yn ystod y cyfnod adrodd. Dylid nodi bod Aelodau'r Pwyllgor hefyd yn cael eu gwahodd i fynd i sesiynau datblygu, gweithdai ac ymweliadau safle trwy gydol blwyddyn y cyngor.

| **Aelod y Pwyllgor Craffu** | **Cyfarfodydd a fynychwyd** | **%** |
|---|---|---|
| Y Cynghorydd Sue Allen | 6 [o 6] | 100% |
| Y Cynghorydd Liam Bowen | 4 [o 6] | 67% |
| Y Cynghorydd Kim Broom | 6 [o 6] | 100% |
| Y Cynghorydd Lewis Davies | 6 [o 6] | 100% |
| Y Cynghorydd Peter Hughes-Griffiths | 5 [o 6] | 83% |
| Y Cynghorydd Betsan Jones | 6 [o 6] | 100% |
| Y Cynghorydd Hefin Jones | 5 [o 6] | 83% |
| Y Cynghorydd Jean Lewis | 6 [o 6] | 100% |
| Y Cynghorydd Martyn Palfreman | 6 [o 6] | 100% |
| Y Cynghorydd Emlyn Schiavone* | 3 [o 3] | 100% |
| Y Cynghorydd Russell Sparks* | 2 [o 2] | 100% |
| Y Cynghorydd Edward Skinner | 5 [o 6] | 83% |
| Y Cynghorydd Janet Williams | 6 [o 6] | 100% |
| Y Cynghorydd Steve Williams | 6 [o 6] | 100% |
| Swydd wag | Ddim yn berthnasol | Ddim yn berthnasol |
| **Cynrychiolwyr Rhiant-lywodraethwyr** | **Cyfarfodydd a fynychwyd** | **%** |
| Mr Anthony Enoch | 6 [o 6] | 100% |
| Deborah Elias | 4 [o 6] | 67% |
| Swydd wag | Ddim yn berthnasol | Ddim yn berthnasol |
| **Cynrychiolwyr yr Eglwys** | **Cyfarfodydd a fynychwyd** | **%** |
| Ms Mari Hughes | 5 [o 6] | 83% |

| | | |
|---|---|---|
| Mrs Vera Kenny* | 2 [o 2] | 100% |

| **Yr Aelod Cabinet*** | **Cyfarfodydd a fynychwyd** | **%** |
|---|---|---|
| Y Cynghorydd Glynog Davies (Addysg) | 6 [o 6] | 100% |
| Y Cynghorydd Alun Lenny (Adnoddau) | 2 [o 2] | 100% |
| Y Cynghorydd Carys Jones | 1 [o 1] | 100% |
| **Yn dirprwyo** | **Cyfarfodydd a fynychwyd** | **%** |
| Mansel Charles | 1 [o 1] | 100% |

***Nodiadau:**

*Gwasanaethodd y Cynghorydd Emlyn Schiavone ar y pwyllgor tan 10.12.2025*
*Y Cynghorydd Penodwyd Russell Sparks ar 25.02.2026*
*Mrs. Gwasanaethodd Vera Kenny ar y pwyllgor tan 14.10.2025*
*Mae Aelodau Cabinet yn mynychu cyfarfodydd yn ôl yr angen.*